

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 8 Ionawr 2018 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

46. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Menna Jones a Gavin Harris. Yn absenoldeb y Cadeirydd enwebwyd y Cyngorydd Ian Lewney i gadeirio'r cyfarfod.

47. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

48. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017 yn gywir.*

49. MATERION YN CODI

Cyfeiriwyd at safon siomedig y coed Nadolig a osodwyd o gwmpas y dref a'r broblem gyda'r defaid wedi bwyta canghennau isaf y goeden ar Ffordd Dinbych, a bod angen datrys y mater hwn a gofyn am brisiau gan gwmnïau eraill ar gyfer Nadolig 2018.

50. AILBAENTIO'R RHEILIAU O GWMPAS Y GOFEB RHYFEL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr angen i ailbaentio'r rheiliau a bod angen glanhau ac ailosod llechi'r llawr o gwmpas y gofeb. Cynigiodd y Cyngorydd Anne Roberts gysylltu gyda Phennaeth Ysgol Brynhafryd a mudiadau'r Sgowntiaid a Chadetiaid Awyr i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn ymgymryd â gofalu am y gofeb.

PENDERFYNWYD: *cysylltu gyda'r ysgol a'r mudiadau uchod a thrafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf.*

51. AMCANGYFRIFON ARIANNOL

Bu'r aelodau'n ystyried gwariant arfaethedig y Pwyllgor yn 2018 / 2019, ar sail costau'r llynedd.

PENDERFYNWYD: *cael rhagor o wybodaeth am flychau bagiau baw ci a seddau cyhoeddus rhag ofn bod angen cynyddu'r swm dan y penawdau hyn ar gyfer 2018/19.*

52. ADEILAD YR HEN LYS

Darparwyd diweddariad i'r aelodau yn dilyn cael golwg ar yr adeilad a chyfarfod y gweithgor gyda'r Gwir Anrhydeddus David Jones AS a oedd wedi bod y trafod y sefyllfa gyda'r NatWest. Dywed y banc bod llawer o ddiddordeb yn yr adeilad a chynigiwyd gwneud trefniant rhagbrynu ('pre-emption arrangement') gyda'r Cyngor Tref a fyddai'n golygu bod y Cyngor yn cael cyfle i brynu'r adeilad am yr un pris a'r hyn a gynigiwyd gan ddarpar brynwr arall. Hefyd gofynnwyd iddynt ystyried comisiynu arolwg strwythurol ar yr adeilad.

PENDERFYNWYD: *cael prisiau am lunio'r trefniant rhagbrynu a bwrw ymlaen os yw'n llai na £500, ond peidio â chomisiynu arolwg ar hyn o bryd.*

53. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 12 Chwefror 2018 am 7:30pm.*